**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 7 Awst 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M S Tribe | C A Holley | P R Hood-Williams |
| A J Jeffery | J W Jones | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Hayley Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau |
| Alyson Pugh | Aelod y Cabinet dros Les |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Rheolwr y Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Richard Davies | Rheolwr Strategol y Tîm Taliadau Uniongyrchol |
| Amy Hawkins | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Anthony Richards | Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): E T Kirchner
Hefyd yn Bresennol: L S Gibbard

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Chris Holley fuddiant personol.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' - Cydnerthedd a Hunanddibyniaeth Cymunedau

Daeth Aelod y Cabinet dros Gefnogaeth Gymunedol, Aelod y Cabinet dros Les a'r Rheolwr Gwasanaethau Trechu Tlodi i'r cyfarfod i friffio'r Panel.

Pwyntiau Trafod:

- Gofynnodd y panel sut mae tlodi'n cael ei ddiffinio a'i fesur a holwyd sut y bydd yn gweithio o ran adnabod pobl i ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith a wnaed gan yr Awdurdod yn y gorffennol. Daw'r diffiniad a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr Awdurdod o Strategaeth Trechu Tlodi 2017. Mae'r strategaeth yn cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd i sicrhau bod y diffiniadau a'r mesurau cywir ar waith.
- Gofynnodd y Panel pam y mae pwyllgor archwilio yn ceisio ail-lunio'r ffordd y mae cymunedau'n gweithredu, ac a oes unrhyw wyddonwyr cymdeithasol neu arbenigwyr mewn theori rhwydwaith yn rhan o hyn. Fe'u hysbyswyd mai rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw sicrhau bod y sefydliad yn bwrw ymlaen ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru a'i fod yn dilyn y protocolau cywir. Nid yw'n asesu manylion yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei gynnig.
- Roedd y Panel yn bryderus ynghylch sut y bydd pobl sydd â'r grym i ymgymryd â'r rolau hyn yn y gymuned yn cael eu rheoli a sut bydd hunanddibyniaeth gymunedol yn cael ei ddatblygu. Fe'u hysbyswyd ei fod yn ymwneud â manteisio arno yn hytrach na'i reoli.
- Gofynnodd y Panel pryd y bydd archwiliad o'r hyn sydd eisoes yn digwydd ym mhob un o'r wardiau yn cael ei gynnal. Fe'u hysbyswyd y bydd y Strategaeth wedi'i hadnewyddu, a hynny wedi'i wneud ar y cyd, yn rhoi'r blaenoriaethau a'r themâu i'w datblygu.
- Gofynnodd y Panel sut y bydd 'cymuned' yn cael ei ddiffinio a sut byddai swyddogion yn mynd ati i weithio gydag arweinwyr y gymuned honno. Clywyd bod hyn yn rhan o'r gwaith diffinio y mae angen ei wneud yn ofalus iawn ac mewn ffordd gydlynus gyda chymunedau.
- Gofynnodd y panel pa mor hir y bydd yn ei gymryd a chlywsant y bydd yn cyd-fynd â chyhoeddi'r Strategaeth Trechu Tlodi ar ei newydd wedd. Yr amserlen bresennol ar gyfer hyn yw y bydd fersiwn ddrafft ohoni'n destun ymgynghoriad cyhoeddus tua diwedd y flwyddyn galendr hon.

## 6 Grantiau'r Gwasanaeth Trechu Tlodi 2022-23: Adroddiad Effaith

Roedd Aelod y Cabinet dros Les a Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tlodi ac Atal yn bresennol i roi trosolwg o effaith Grantiau'r Gwasanaeth Trechu Tlodi yn 2022/23 ac ateb cwestiynau.

Pwyntiau Trafod:

- Mae'r Tîm Trechu Tlodi yn trin nifer o grantiau'n flynyddol. Yn 2022-23 gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y grantiau a swm y cyllid grant (dros £500,000) a roddwyd i fynd i'r afael â thlodi.
- Anogodd yr aelodau i ddarllen yr adroddiad blynyddol i weld y gwahaniaeth a wnaed yng ngeiriau'r sefydliadau eu hunain.
- Gofynnodd panel am yr hyn sy'n cyfateb i 'Men's Sheds' i fenywod a chlywsant y gall menywod eu defnyddio hefyd a bod 'Women's Sheds' i'w cael erbyn hyn.

## 7 Gwybodaeth Ychwanegol am Daliadau Uniongyrchol

Roedd Amy Hawkins, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi a Richard Davies, Rheolwr Strategol y Tîm Taliadau Uniongyrchol yn bresennol i ateb cwestiynau'r Panel am wybodaeth ychwanegol am daliadau uniongyrchol a ddarparwyd ar ffurf astudiaethau achos.

Pwyntiau Trafod:

- Gofynnodd y panel am y gyllideb ar gyfer taliadau uniongyrchol yn y flwyddyn ariannol bresennol. Fe'u hysbyswyd fod y gwariant ar hyn o bryd rhwng £5.8 a £6 miliwn y flwyddyn ac mae'r rhan fwyaf o hyn yn mynd tuag at gynorthwywyr personol a darpariaeth arbenigol.
- Gofynnodd y Panel am ddadansoddiad o arian sy'n dod yn ôl i'r Awdurdod drwy ei wasanaethau yn hytrach na mynd y tu allan i'r Awdurdod. Dywedwyd wrthynt os oes rhywun yn defnyddio taliadau uniongyrchol, bydd y cyfan ar gyfer gwasanaethau allanol. Mae'r gyllideb gyffredinol ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion dros £100 miliwn ac mae tua £5.6 miliwn o hyn yn daliadau uniongyrchol.
- Gofynnodd y Panel sut mae'r Awdurdod yn monitro neu'n atal taliadau uniongyrchol rhag cael eu defnyddio at y diben anghywir. Clywsant o ran monitro, fod pob gwariant yn cael ei fonitro'n agos, a bod naill ai ganddynt gyfrifon wedi'u rheoli neu gardiau talu, felly mae goruchwyliaeth.
  Gofynnodd y panel a all rhywun sy'n defnyddio gwasanaeth dydd am ddeuddydd ac sydd am fynd am ddiwrnod ychwanegol ddefnyddio taliad uniongyrchol ar ei gyfer. Dywedwyd ei fod yn dibynnu ar yr angen a aseswyd.

## 8 Cynllun Waith 2023-24

Trafododd y Panel y cynllun gwaith ac ychwanegodd yr eitem ganlynol:

- Sesiwn friffio ar Llais i'w hychwanegu at y cyfarfod a gynhelir ar 31 Hydref.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 pm